


# Grŵp Cynghori Technegol

# Senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied newydd ar gyfer y gaeaf

09 Medi 2020







OGL © Crown copyright 2020

**Grŵp Cynghori Technegol - Senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied newydd ar gyfer y gaeaf**

**Beth yw senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied?**

- Ffordd o ystyried y canlyniadau mwyaf heriol a allai'n rhesymol ddigwydd o ganlyniad i COVID-19 yng Nghymru yw 'senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied'. Nid rhagolwg na rhagfynegiad o'r hyn sydd fwyaf tebygol o ddigwydd ydyw, ond mae'n darparu gwybodaeth bwysig i helpu'r llywodraeth i baratoi ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios ac ymateb iddynt.

  '*Nid yr hyn a fydd yn digwydd yw'r senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied, yr hyn a allai ddigwydd ydyw*'

- Datblygwyd y senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied ar gyfer Cymru i helpu pobl yng Nghymru a chyrff cyhoeddus i baratoi ar gyfer COVID-19 dros y gaeaf sydd i ddod. Er enghraifft, faint o weithwyr gofal iechyd y gallai fod eu hangen i staffio gwelyau unedau gofal dwys, neu faint o brofion COVID-19 y gallai fod eu hangen ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

**Sut cafodd y senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied ei datblygu yng Nghymru?**

- Mae nifer o senarios (neu 'fodelau') wedi cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer gaeaf 2020/21, yn ogystal â nifer o fodelau eraill sy'n berthnasol i Gymru.

- Dewiswyd pedair prif senario enghreifftiol i'w hystyried o amrywiaeth o ffynonellau.

**Pa senario sydd wedi'i dewis a pham?**

- Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar ddefnyddio'r senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe. Mabwysiadwyd model Prifysgol Abertawe am nifer o resymau gan gynnwys:

- Mae'r brig yn nifer yr achosion rhagamcanol yn debyg i'r brig a welwyd eisoes yng Nghymru ac felly gellid disgwyl yn rhesymol ei weld yn y senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied.

- Mae'r model hwn yn defnyddio data genomeg feirysol Cymru i ystyried yn gywir nifer y cyflwyniadau unigryw o'r feirws i Gymru.

- Mae'r model yn caniatáu i amcangyfrifon o amseroedd ymateb gael eu cynnwys mewn rhagdybiaethau (ee yr amser rhwng gwneud penderfyniadau cenedlaethol a gweithredu ymyriadau). Gan mai nod y senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied yw cynrychioli'r senario fwyaf heriol, mae angen inni ystyried efallai nad yw'r arwyddion a'r ymatebion iechyd y cyhoedd priodol yn glir, efallai y bydd oedi cyn ymateb a gall fod yn amhosibl rhagweld sut y bydd y cyhoedd yn ymateb i fesurau rheoli COVID-19.

- Mae model Abertawe yn ystyried rhai o'i phriodoleddau sy'n golygu bod Cymru yn wahanol i rannau eraill o'r DU megis poblogaeth sydd ychydig yn hŷn ar gyfartaledd, a mwy o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

**Beth mae'r model yn ei ddweud wrthym?**

- Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr heintiadau, derbyniadau i'r ysbyty, uchafswm y defnydd gwelyau angenrheidiol (gan gynnwys unedau gofal dwys), ac amcangyfrif o'r marwolaethau a fydd yn digwydd oherwydd COVID-19 ar gyfer y modelau o senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied rhwng 1 Gorffennaf 2020 a 31 Mawrth 2021.

- Mae'n bwysig pwysleisio bod hon yn senario fwriadol besimistaidd o ran yr her i wasanaethau cyhoeddus; nid dyma fydd yn digwydd yn ein barn ni. Mae gwasanaethau cyhoeddus, cyflogwyr, cymunedau a'r cyhoedd yng Nghymru yn parhau i gydweithio i atal lledaeniad y feirws ac atal derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau gan gydnabod hefyd y gall mesurau rheoli COVID-19 achosi niwed.


**Prif ffigurau ar gyfer y senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied:**

| | Heintiadau | Derbyniadau i'r ysbyty[1] | Marwolaethau[2] | Uchafswm y defnydd gwelyau[3] | Uchafswm y defnydd gwelyau – unedau gofal dwys[6] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Model 3:** Y senario waethaf y mae'n rhesymol ei hystyried – Model Prifysgol Abertawe | 636,000 | 18,200 | 6,300 | 1,300 | 190 |

**Nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd COVID-19 yr wythnos**

- Fel y dangosir yn y graff canlynol, mae model Abertawe yn dangos bod y brig nesaf yn mynd i ddigwydd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021. Mae'r graff hwn yn dangos derbyniadau i'r ysbyty ond bydd canlyniadau eraill yn dangos cromlin sydd o siâp tebyg.

*Derbyniadau i'r ysbyty – achosion o COVID-19 a gadarnhawyd (yr wythnos)*




[1] Cyfeiria derbyniadau i'r ysbyty at gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 a dderbynnir i'r ysbyty ar gyfer COVID-19.
[2] Data ar farwolaethau y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
[3] Cyfeiria defnydd gwelyau (gan gynnwys defnydd gwelyau unedau gofal dwys) at welyau a ddefnyddir gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19.

**Beth fydd hefyd yn cael ei ystyried pan fyddwn yn cymhwyso'r senario?**

- Yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ochr yn ochr â thrafodaethau lleol a cenedlaethol, cytunwyd ar y pwyntiau canlynol a'u cynnwys yn y model:

    - Mae'n debygol y bydd gan nifer cynyddol o bobl iau COVID-19, oherwydd eu hymddygiadau a gweithgareddau gwahanol. Mae pobl iau yn fwy tebygol o fod â symptomau ysgafn neu ddim symptomau o gwbl ac felly efallai eu bod yn llai tebygol o gael eu profi. Gall hyn arwain at gynnydd mewn achosion ymhlith grwpiau eraill o bobl.

    - Gall cyfran uwch o heintiadau fod mewn grwpiau sy'n anoddach eu cyrraedd, fel pobl o gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).

    - Ar y dechrau, bydd cynnydd araf yn nifer yr achosion newydd, ond bydd nifer yr heintiadau'n cynyddu'n gyflymach dros amser. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r newid yn nifer yr heintiadau fod mor uchel, diolch i'r camau a gymerwyd i leihau'r risg o ddal yr haint, agwedd naturiol ochelgar ymhlith y boblogaeth ac yn sgil mwy o brofi.

    - Wrth inni symud i mewn i'r gaeaf, efallai y bydd pobl sydd wedi'u heintio yn fwy tebygol o dybio bod eu symptomau'n cael eu hachosi gan salwch arall, fel y ffliw. Mae hyn yn golygu y gallent fod yn llai tebygol o adrodd am eu symptomau ac efallai y bydd ansicrwydd diagnostig a phwysau ychwanegol ar y system iechyd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

- Rydym yn edrych ar senarios eraill ym model Abertawe sy'n cynnwys aros am gyfnod hirach yn yr ysbyty ac mewn uned gofal dwys, a fyddai'n golygu bod lefel y defnydd gwelyau yn uwch ar adeg brig.

- Rydym yn cynhyrchu canlyniadau ar lefelau mwy lleol, gan gydnabod na fydd y feirws yn dilyn yr un llwybr ar draws gwahanol ardaloedd lleol.

- Rydym yn edrych ar senarios eraill gyda gwahanol ymatebion polisi i gynnydd posibl yn nifer yr achosion o COVID-19.

- Rydym yn trafod senarios eraill posibl megis brig yn nifer yr achosion yn yr hydref, y senarios gorau y mae'n rhesymol eu tybied, a'r senario fwyaf tebygol.

- Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer y gaeaf yn mynd rhagddo a gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio hyn ymhellach. Wrth i dystiolaeth neu ddata newydd ddod i'r amlwg, gellir diweddaru'r modelu.

- Rydym yn adnewyddu ein rhagdybiaethau enghreifftiol yn barhaus ac yn edrych ar ragolygon tymor canolig, gan gynnwys ystyried y cynnydd mewn achosion a welwyd yn ystod pythefnos cyntaf mis Medi 2020.